**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Mawrth 2024

Annwyl Jenny,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Roedd fy sesiwn Cwestiynau Llafar ar 21 Mehefin 2023 yn cynnwys trafodaeth ar noeth-chwilio plant gan heddluoedd Cymru. Ymrwymais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y mater pwysig hwn pan oedd Plismona yng Nghymru wedi cwblhau dadansoddiad o'u prosesau a'u data mewnol a rhoi gwybodaeth i mi yn seiliedig ar hyn.

Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl, a Llywodraeth y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol amdano. Fodd bynnag, mae achosion o noeth-chwilio plant gan yr heddlu yn fater yr ydym yn ei gymryd o ddifrif o ystyried pwysigrwydd lles plant Cymru. Rwyf wedi cael sawl trafodaeth gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu arweiniol, Andy Dunbobbin yn ein cyfarfodydd dal i fyny rheolaidd ac mae Plismona yng Nghymru wedi rhoi'r wybodaeth isod i mi ac wedi cadarnhau y gellir rhannu hyn ag Aelodau'r Senedd.

Mae Plismona yng Nghymru wedi cynghori bod adolygiad o'u gweithdrefnau a'u prosesau wedi canfod bod gan bob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru weithdrefnau llywodraethu llym ar waith, eu bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ynghylch noeth-chwilio plant sy'n cynnwys craffu allanol ac annibynnol ar ffurf y Grŵp Cynghori Annibynnol, Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Chomisiynydd Plant Cymru.

Mae gan heddluoedd ystod o fframweithiau craffu a llywodraethu ar waith i gefnogi lles plant sy'n cael eu chwilio, gan gynnwys defnyddio camerâu a wisgir ar y corff a chamerâu teledu cylch cyfyng yn y ddalfa; oedolion priodol yn bresennol ym mron pob ardal; panelau a grwpiau cynghori. Mae pob heddlu wedi mabwysiadu ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn eu gweithdrefnau stopio a chwilio ac yn gwneud atgyfeiriadau diogelu lle bo hynny'n briodol.

Mae'r term 'noeth-chwilio' yn cwmpasu ystod eang o ymarfer, o dynnu darn allanol o ddillad, fel siaced, i chwiliadau llawer mwy personol. Er bod angen cynnal yr holl weithgarwch hwn mewn modd sensitif a phriodol, mae'r ffigurau a ddarparwyd gan yr heddlu yn tynnu sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o'r chwiliadau hyn yn ymyrryd llawer llai nag y gallai'r term 'noeth-chwilio' ei awgrymu, gyda dim ond haenau allanol o ddillad wedi'u tynnu yn y mwyafrif helaeth o achosion.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canfu adolygiad yr heddlu fod cyfanswm o 5,428 o achosion o noeth-chwilio plant wedi cael eu cynnal yng Nghymru dros y cyfnod dwy flynedd rhwng 2021-22 a 2022-23. Roedd pob un ond chwech o'r 5,428 o achosion yn ymwneud â phlant 13 oed neu hŷn. Roedd y chwiliadau hyn yn gysylltiedig yn bennaf â chludo arfau ymosodol neu gyffuriau anghyfreithlon. Dylid nodi bod y rhif yn cofnodi nifer y chwiliadau fel digwyddiadau unigol, yn hytrach na nifer y plant a gafodd eu chwilio.


Er eu bod yn dod o dan y diffiniad o noeth-chwilio fel yr amlinellwyd uchod, ar gyfer y rhan fwyaf o'r chwiliadau hyn nid oedd y plant wedi gorfod tynnu eu dillad, neu dim ond chwiliad sylfaenol a wnaed - hy lle cafodd côt, siaced neu fenig eu tynnu. O'r 5,428 o chwiliadau, roedd 85 yn cynnwys chwiliad mwy trylwyr, neu chwiliad sy'n gofyn am ddinoethi rhannau personol o'r corff.

Mae'r wybodaeth hefyd yn dangos nifer y plant o gefndiroedd Du ac ethnig leiafrifol a oedd wedi cael eu noeth-chwilio:

- Gwent 12
- Gogledd Cymru 1
- Dyfed Powys 3
- De Cymru 51

Y Dirprwy Brif Gwnstabl Rachel Williams sy'n gyfrifol am y portffolio ar gyfer Plismona sy'n Canolbwyntio ar Blant ledled Cymru ac mae'n cydweithio â phob un o'r pedwar Heddlu yng Nghymru i gael gwell dealltwriaeth o unrhyw welliannau y gellir eu gwneud yn y maes hwn, ochr yn ochr ag arolygu a disgwyliadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i drafod y mater hwn.

Yn unol â'r ymrwymiad a roddais yn ystod y Cyfarfod Llawn rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at holl Aelodau'r Senedd.



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

PLEASE LEAVE BLANK